**PAPUR TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR DIWYLLIANT, CYFATHREBU, Y GYMRAEG, CHWARAEON A CHYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL ODDI WRTH DDIRPRWY WEINIDOG Y CELFYDDYDAU, CHWARAEON A THWRISTIAETH**

Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth cyn fy mod yn ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 25 Mai 2023, wedi'i drefnu yn wreiddiol ar gyfer 2 Chwefror 2023.

## Cyflwyniad

Mae sector y diwydiannau creadigol yn rhan bwysig o economi Cymru, gan greu swyddi a chyfoeth, a chyfrannu at frand cenedlaethol cryf sy'n helpu i hyrwyddo Cymru, ei diwylliant a'i thalent i'r byd. Drwy Cymru Greadigol, mae Llywodraeth Cymru yn targedu ei buddsoddiadau yn y diwydiannau creadigol ar draws nifer o sectorau allweddol gan gynnwys sgrin, cerddoriaeth, gemau, digidol a chyhoeddi. Er mwyn gwireddu ein huchelgeisiau ar gyfer twf cynhwysol a chynaliadwy, mae Cymru Greadigol yn targedu gweithgarwch ar draws nifer o themâu, gan gynnwys datblygu sgiliau a thalent, amrywiaeth a chynhwysiant, diwylliant a llesiant, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi sector diwydiannau creadigol cynaliadwy yng Nghymru.

I'n helpu i fesur newidiadau yn y sectorau yr ydym wedi'u blaenoriaethu, mae'r gwaith wedi'i gwblhau i fireinio'r ystadegau sector a gasglwyd yn flynyddol. Mae hyn yn crynhoi'r diffiniad eang o'r diwydiannau creadigol a fabwysiadwyd gan yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i nifer llai o godau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) sydd fwyaf perthnasol i'r is-sectorau y mae Cymru Greadigol yn ymgysylltu'n weithredol â nhw. Yn ôl data 2021 ar sectorau'r diwydiannau creadigol sy'n cyfateb i'r codau SIC hynny:

- mae 3,423 o fusnesau yn rhan o sectorau diwydiannau creadigol Cymru, sy'n gynnydd o 6.4% ers 2018;
- roedd 34,900 o bobl wedi'u cyflogi yn y sectorau hyn, gyda'r diwydiant yn cynhyrchu £1.7 biliwn o drosiant blynyddol yn 2021, sy'n gynnydd o 14% ers 2017.

Mae rhagor o wybodaeth am nifer y busnesau, swyddi a throsiant yn y diwydiannau creadigol a'u his-sectorau yng Nghymru, gan gynnwys dadansoddiad blwyddyn ar ôl blwyddyn o newidiadau o 2016-2021 i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru - Ceisiadau ystadegol ad-hoc: 25 Ebrill i 6 Mai 2022 | LLYW.CYMRU

Mae Cymru Greadigol wedi cyflwyno arolwg diwydiant blynyddol Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol: 2022 | LLYW.CYMRU. Mae'r arolwg yn cynnwys sampl o fusnesau a gweithwyr llawrydd o'r sectorau sgrin, cerddoriaeth, digidol a chyhoeddi yng Nghymru. Yn ôl prif ganfyddiadau arolwg 2022, cafwyd profiadau cymysg o ran perfformiad a throsiant busnes yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gydag effaith COVID-19 wedi'i briodoli i hyn. Fodd bynnag, mae busnesau'n teimlo'n fwy hyderus am y flwyddyn ariannol nesaf nag fel arall. Mae dros chwarter y busnesau wedi cael trafferth recriwtio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd bylchau sgiliau yn y gweithlu ac ymhlith ymgeiswyr. Gwella proffidioldeb, gwella cyfleoedd marchnata, a

thyfu'r gweithlu yw'r tair blaenoriaeth allweddol orau ymhlith y sectorau gyda'r arolwg yn nodi y byddai'r diwydiant yn elwa ar gymorth ariannol bellach, mwy o gyfleoedd i rwydweithio, a chymorth a chyngor busnes mwy hygyrch.

**Sectorau â blaenoriaeth Cymru Greadigol**

*Y Sector sgrin*
Mae'r sector sgrin yng Nghymru yn ffynnu. Mae Cymru Greadigol yn hoelio sylw ar gynnal twf yn y diwydiant sgrin a sicrhau bod Cymru yn cael ei hystyried yn brif leoliad ar gyfer cynyrchiadau ffilm a theledu. Mae cynyrchiadau mawr wedi cael eu denu i Gymru yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys cynhyrchiad ffilm *Havoc* gan Netflix a chynhyrchiad Lucasfilm o *Willow*. Mae'r chwaraewyr byd-eang hyn, ochr yn ochr â'n cwmnïau cynhyrchu cynhenid, yn helpu i dyfu ein heconomi, datblygu ein sylfaen sgiliau a chodi proffil Cymru ledled y byd. Ers ei lansio, mae Cymru Greadigol wedi rhoi £16.3 miliwn o gyllid cynhyrchu i 31 prosiect, gan gynhyrchu mwy na £187.1 miliwn mewn gwariant yn economi Cymru.

Er mwyn ateb y galw am ofod stiwdio gan gynyrchiadau sy'n ceisio ffilmio yng Nghymru, mae Cymru Greadigol yn buddsoddi mewn seilwaith stiwdio, gan gynnwys y Stiwdio Aria newydd ar Ynys Môn. Mae Cymru Greadigol hefyd yn cefnogi piblinell o gynyrchiadau drwy fuddsoddi mewn syniadau newydd ac Eiddo Deallusol drwy ei ddull cyllido datblygiadau.

Fodd bynnag, mae’r sector yn wynebu heriau. Mae lefelau cynhyrchu na welwyd eu tebyg o'r blaen yng Nghymru a ledled y DU wedi arwain at brinder criw medrus ar draws pob adran. Yr hyn sy’n gwaethygu’r sefyllfa hefyd yw’r ffaith nad yw’r sector yn aml yn cael ei ystyried yn ddewis gyrfa hyfyw i bobl ifanc neu eu rhieni. Mae heriau hefyd o ran cadw'r criw presennol, a hynny oherwydd enghreifftiau o oriau gwaith hir, a bwlio ac aflonyddu ar rai cynyrchiadau sy'n effeithio ar lesiant ac iechyd meddwl.

Mae diogelu gweithlu'r sgrin a’r gefnogaeth a roddir i wella iechyd meddwl gweithwyr yn hanfodol i'w lwyddiant yn y dyfodol. Mae Cymru Greadigol wedi gweithio gyda CULT Cymru a 6ft From the Spotlight sy’n Gwmni Buddiannau Cymunedol, ar gynllun peilot i gyflwyno hwyluswyr llesiant i’r gweithlu cynhyrchu sgrin yng Nghymru. Nod yr hwyluswyr yw cefnogi a hysbysu cynhyrchwyr a phenaethiaid adran i helpu i atal straen, materion iechyd meddwl, bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu wrth greu cynyrchiadau. Y bwriad yw i'r gefnogaeth hon alluogi'r rhai sy'n gyfrifol am y gweithlu cynhyrchu i fodloni eu dyletswydd gyfreithiol o ofal i weithwyr a chynnig cymorth i bob aelod o’r criw a’r cast i reoli heriau sy'n gysylltiedig â straen, iechyd meddwl, bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu. Bydd y prosiect hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y gweithlu llawrydd, cymuned sy'n aml yn cael ei cholli gan raglenni iechyd mwy traddodiadol yn y gweithle sy'n targedu dulliau cyflogaeth cyflogwr / gweithiwr. Mae Cymru Greadigol yn rhoi cymhorthdal i gymell cwmnïau cynhyrchu i gyflogi hwyluswyr. Bellach mae’r peilot wedi dod i ben ac mae Cymru Greadigol yn ystyried ail flwyddyn o gefnogaeth. Yr amcan fydd i’r rôl i fod yn brif ffrwd yn y tymor hwy ac os bydd yn llwyddiannus, gellid ystyried y model ar gyfer is-sectorau ehangach.

*Y sector cerddoriaeth*
Y diwydiant cerddoriaeth oedd un o'r sectorau creadigol a gafodd ei daro waethaf gan y pandemig COVID-19 byd-eang. Mae heriau parhaus hefyd yn gysylltiedig â’r

argyfwng costau byw, diffyg hyfforddiant wedi'i gydlynu a llwybrau gyrfa clir, a sgiliau rheoli annigonol. Mae Cymru Greadigol yn gweithio'n agos gyda'r sector i dyfu'r diwydiant cerddoriaeth fasnachol yng Nghymru, i gefnogi cyfleoedd newydd a helpu i sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Mae busnesau cerddoriaeth yn blatfform allweddol ar gyfer datblygu, meithrin a thyfu talent cerddoriaeth. Mae cyllid cyfalaf a refeniw wedi cael ei ddyfarnu i fusnesau cerddoriaeth yng Nghymru drwy Cymru Greadigol i wella a chynyddu rhagolwg masnachol a chynaliadwyedd busnesau, a chyfrannu at ddatblygiad a thwf y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru. Mae £149,000 wedi'i ddarparu mewn cyllid refeniw i gefnogi labeli cerddoriaeth a busnesau rheoli cerddoriaeth i nodi ymgyrchoedd rhyddhau a fyddai'n elwa ar gyllid ychwanegol yn sgil cyfyngiadau ariannol presennol a chyfredol ac i ddatblygu ymgyrchoedd cryfach o ran cerddoriaeth y bwriedir ei rhyddhau i wella'r rhagolygon masnachol a chynaliadwyedd. Defnyddiwyd £524,203 o gyllid cyfalaf i gefnogi lleoliadau, stiwdios recordio a labeli recordiau i wella adeiladau, profiad cynulleidfaoedd neu ddefnyddwyr, gwella profiad lefel gwasanaeth ac ar gyfer gwelliannau cyflawni arloesol.

Yn ogystal, mae Cymru Greadigol wedi cefnogi nifer o brosiectau i hyrwyddo twf y sector cerddoriaeth fasnachol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i bobl ifanc o dan fenter Beacons Cymru; Cronfa Momentwm Sefydliad PRS, sy'n rhoi cyfleoedd i artistiaid unigol Cymru yng nghyfnod datblygu eu gyrfaoedd a sylw rhyngwladol i artistiaid drwy raglen fentora Focus Wales, ynghyd â phresenoldeb a chynrychiolaeth mewn amryw o ddigwyddiadau cerddoriaeth rhyngwladol. Mae sawl un sy'n derbyn cyllid gan y Gronfa Sgiliau Creadigol ddiweddar yn darparu prosiectau sy'n benodol i’r anghenion sgiliau yn y sector cerddoriaeth yng Nghymru, gan gynnwys datblygu rheolwyr cerddoriaeth a rheolwyr lleoliadau cerddoriaeth.

Mae camau gweithredu i gefnogi'r sector cerddoriaeth wedi’u dylanwadu gan ymchwil a ariennir gan Cymru Greadigol ac a gynhaliwyd gan yr Athro Carr i werth economaidd cerddoriaeth cyn ac ar ôl y pandemig. Yn ddiweddar mae Cymru Greadigol wedi penodi John Rostron i'w Fwrdd Anweithredol i gynyddu lefel yr wybodaeth a’r arbenigedd sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth ac i gynrychioli'r diwydiant cerddoriaeth ar y Bwrdd.

*Y sector digidol*
Mae adroddiadau *Arolwg Sgrin Cymru 2021* Prifysgol De Cymru a Cymru Greadigol ac *Arolwg Gemau Cymru 2021* Clwstwr, a ariennir gan Cymru Greadigol, yn helpu i nodi’r cyfleoedd a'r heriau yn y sector yng Nghymru. O safbwynt sgiliau, mae tystiolaeth yn awgrymu bod cadw talent yn y sector yn broblem, pan fo’r sgiliau cywir yn eu lle ond diffyg cwmnïau yn recriwtio yng Nghymru i gadw talent yma. Mae’r farchnad hefyd yn un gystadleuol, ac mae’r gallu i weithio o bell yn arwain at bobl fedrus yng Nghymru yn gweithio o bell i gwmnïau sydd wedi eu lleoli mewn mannau eraill. Yn ogystal, mae diffyg sgiliau busnes ac arwain sy’n golygu nad oes gan bobl greadigol dalentog yr wybodaeth am sut i dyfu eu busnesau. Cynhaliwyd arolwg pellach ar ddiwedd 2022 gan rifysgol De Cymru. Bydd hyn yn rhoi rhagor o fanylion am sgiliau, anghenion hyfforddi, agweddau a phrofiadau’r rhai sy'n gweithio ar draws y sector sgrîn. Bydd y cyhoeddiad yn cael ei ryddhau ym mis Mai 2023.

Mae Cymru Greadigol yn bwrw ymlaen ag ystod o gamau i gefnogi gweithgarwch yn y sector digidol, ar draws y diwydiant gemau, animeiddio a Createch. Cafodd cynnig cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol ei ddiwygio yn 2022 er mwyn cynnwys cymorth i'r diwydiant gemau. Bydd y cynnig estynedig hwn yn helpu Cymru i gystadlu'n rhyngwladol am gyfran fwy o'r sector twf uchel hwn, gan gynnig cymorth ariannol i gwmnïau sy'n dewis cynhyrchu gemau yng Nghymru neu i fusnesau brodorol i ddatblygu Eiddo Deallusol newydd. Lansiwyd y ffrwd ariannu newydd hon yn GDC ym mis Mawrth fel rhan o'n cenhadaeth flynyddol i ddigwyddiad San Francisco sydd wrth galon y diwydiant. O ran cefnogi creu gemau Eiddo Deallusol a stiwdios newydd, byddwn unwaith eto yn ariannu Gemau Talent Cymru - rhaglen a ddarperir drwy Prifysgol Glyndwr a Phrifysgol De Cymru ochr yn ochr â rhaglen Transfuser Cronfa Gemau'r DU. Mae hyn yn darparu cyllid ariantal ar gyfer myfyrwyr yn eu blwyddyn olaf yn y brifysgol sydd am ddechrau stiwdio, gan eu galluogi i ddatblygu teitl newydd i’w arddangos yn EGX ym mis Medi bob blwyddyn. Rydym yn ystyried opsiynau i ehangu'r rhaglen hon yn 2024/5, i gynnwys colegau a Phrifysgolion eraill o bosibl.

Mae'r diwydiant gemau hefyd yn wynebu heriau wrth geisio sicrhau cyllid ar gyfer twf, yn ogystal â marchnata a datblygu. Yn unol â hynny, rydym ar hyn o bryd yn darparu rhaglen deori gemau peilot ar gyfer chwech o gwmnïau potensial uchel, gyda'r nod o wella masnachadwyedd.  Bydd y canlyniadau'n llywio'r posibilrwydd o ddatblygu tendr ar gyfer darpariaeth bellach yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Yn ystod 2023 byddwn hefyd yn datgan ein cynllun gweithredu ehangach i gefnogi'r sector animeiddio, sydd â hanes hir a chyfoethog yng Nghymru ond sydd wedi cael ei gyfyngu rhywfaint yn ddiweddar gan orddibyniaeth ar waith gwasanaeth yn hytrach na chreu a defnyddio Eiddo Deallusol newydd a ddatblygwyd gan gwmnïau. Bydd y cynlluniau hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer sbardunwr animeiddio a chyfleoedd ariannu ar gyfer datblygiadau pellach, ochr yn ochr â chefnogaeth ar gyfer ymgysylltu â sioeau masnach yn Annecy a’r Fforwm Cartŵn fel rhan o bresenoldeb Animation Associates ar draws y DU.

Ym mis Mawrth 2023, fe gefnogodd Llywodraeth Cymru wyth prosiect gyda grant cyfunol o £352,545 o Gronfa Cymru Greadigol ar gyfer Cynnwys i’r Ifanc. Mae'r cynllun yn rhoi arian datblygu i gwmnïau cynhyrchu ar gyfer cynnwys newydd dwyieithog (animeiddio neu weithredu byw) i blant a phobl ifanc. Mae'r cynllun yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â thynnu cefnogaeth Llywodraeth y DU i'r segment hwn trwy'r Gronfa Cynnwys i'r Ifanc sydd bellach wedi cau.

*Y sector cyhoeddi*

Rydym yn parhau i gefnogi’r sector cyhoeddi yng Nghymru a hynny drwy ein cefnogaeth tuag at Cyngor Llyfrau Cymru. Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn gweithio gyda’r sector i fynd i’r afael â nifer o heriau yn y sector, lle gwelir swm uwch o fusnesau llai yn ogystal â chyfleoedd cyfyngedig am yrfa llawn amser i’r rhai hynny sy’n gweithio yn y diwydiant cyhoeddi. Bwriad y grant a roddir gan Lywodraeth Cymru drwy Cymru Greadigol yw cefnogi Cyngor Llyfrau Cymru i fynd i’r afael â diffygion yn y farchnad yn y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru a chefnogi’r Cyngor i fynd i’r afael â’r heriau hyn, ochr yn ochr ag effeithiau tymor hwy y pandemig COVID-19 ar y diwydiant cyhoeddi a siopau llyfrau annibynnol.

Canolbwyntir yn benodol ar gefnogi cynnwys sy'n adlewyrchu pobl o bob oed a chefndir a chynrychiolaeth deg yn y sector er mwyn sicrhau bod darllenwyr yn gallu ymwneud â chynnwys mewn modd ystyrlon a bod llyfrau yn ennyn diddordeb darllenwyr o wahanol gymunedau. Rhoddwyd cyllid ychwanegol i Cyngor Llyfrau Cymru yn 2021/22 er mwyn darparu Cronfa Cynulleidfaoedd Newydd. Rhoddwyd blaenoriaeth gan y Gronfa i fentrau cyhoeddi, awduron a chynulleidfaoedd newydd er mwyn helpu i gryfhau ac amrywio rhannau o'r sector cyhoeddi a gefnogir gan Cyngor Llyfrau Cymru. Cefnogwyd 13 o brosiectau yn ystod y rownd gyntaf, gyda phrosiectau yn amrywio o sefydlu cwmnïau cyhoeddi newydd sydd o dan berchnogaeth golygyddion ac awduron o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac sy'n cael eu cynnal ganddynt, i lwyfannau digidol er mwyn denu cynulleidfaoedd newydd.

Yn 2022/23, mae cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu i Cyngor Llyfrau Cymru i gefnogi'r sector drwy'r heriau parhaus yn sgil yr argyfyngau costau byw a chostau ynni. Mae cyllid ychwanegol hefyd wedi'i ddyfarnu i gefnogi presenoldeb i gyhoeddwyr yn Ffair Lyfrau Llundain ac i gyflwyno ail rownd y Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd.

**Datblygu sgiliau a thalent**

Mae datblygu sgiliau a thalent yn parhau'n brif flaenoriaeth i Cymru Greadigol. Mae gweithgareddau sgiliau Cymru Greadigol yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r prif heriau ym maes darparu hyfforddiant yn y tri sector â blaenoriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys enghreifftiau o weithio'n ynysig a dyblygu darpariaethau yn ddiangen, bylchau yn y gweithlu medrus gan gynnwys sgiliau rheoli a sgiliau arweinyddiaeth, cadw'r gweithlu a diffyg llwybrau ymarferol pan nad yw'r sector yn cael ei ystyried gan bobl ifanc a/neu eu rhieni yn ddewis gyrfa addas.

Ym mis Ionawr 2020, sefydlwyd Grŵp Rhanddeiliaid Sgiliau Ffilm a Theledu Cymru Greadigol i ddod â rhanddeiliaid ynghyd gan gynnwys darlledwyr, Addysg Uwch, Addysg Bellach, darparwyr hyfforddiant, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, adrannau sgiliau ac addysg Llywodraeth Cymru a'r diwydiant er mwyn gweithio mewn partneriaeth, codi ymwybyddiaeth ynghylch camau gweithredu priodol a nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio. Bellach, mae gan y grŵp 63 o aelodau ac mae wedi bod yn hynod werthfawr wrth fynd i'r afael â materion gweithio'n ynysig a dyblygu darpariaethau.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau, mae Cymru Greadigol wedi cefnogi mwy na 18 prosiect hyd yma. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen Cult Cymru, *Dychwelyd i Waith ar gyfer Gweithwyr Creadigol*, cynllun cymorth ar gyfer gweithwyr llawrydd a lansiwyd yn ystod y pandemig, *Camu Fyny,* rhaglen uwchsgilio ar gyfer gweithwyr llawrydd sy'n gweithio ym maes ffilm a theledu ac *Ysgol Ffilm a Theledu Cenedlaethol Cymru,* gan sefydlu canolfan ar gyfer yr ysgol ffilm sydd o safon fyd-eang yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnwys *Cyswllt Diwylliant Cymru*, prosiect ar y cyd â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n gweithio gyda chymunedau i wella amrywiaeth a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant a gwaith i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector sgrin, *Beacons Cymru*, sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau a thalent yn y sector cerddoriaeth, a *Buzz Culture,* rhaglen

ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru sydd â'r nod o ddod o hyd i thalent ysgrifennu newydd yng Nghymru.

Mae Cymru Greadigol hefyd wedi cefnogi lleoliadau a ariennir ar gyfer gweithwyr o dan hyfforddiant ar holl gynyrchiadau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, gyda mwy na 267 o leoliadau (gan gynnwys lleoliadau prentisiaethau) wedi'u cefnogi ers mis Ionawr 2020. Roedd Cymru Greadigol yn allweddol yn y gwaith o sefydlu *Criw,* Cynllun Rhannu Prentisiaethau newydd yn y gogledd a'r de a gweithiwyd gydag adran sgiliau Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg Creadigol, gan sicrhau cymhorthdal o 50% ar gyfer hyfforddiant uwchsgilio staff.

Ym mis Medi 2022, lansiodd Cymru Greadigol ei Chynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol a'i Chronfa Sgiliau Creadigol. Mae'r Cynllun wedi'i ddylunio yn seiliedig ar ganfyddiadau Arolwg Gemau Cymru 2021 gan Clwstwr ac adroddiadau Gwaith Sgrin 2020, *Sgiliau'r Dyfodol ac Arloesi ar gyfer y Sector Sgrin ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd*, Prifysgol De Cymru ac *Arolwg Sgrin Cymru 2021* gan Cymru Greadigol, Arolwg Sgiliau 2022 gan Sefydliad Ffilmiau Prydain (BFI) a Chynlluniau Sgiliau a Chyflogaeth y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer 2019-2022. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r Panel Cynghori ar Sgiliau Creadigol a arweinir gan y diwydiant. Mae'r Cynllun yn nodi deg maes blaenoriaeth y dylid canolbwyntio arnynt ac sy'n cael eu defnyddio i dargedu'r buddsoddiad sydd ar gael drwy'r Gronfa Sgiliau Creadigol gwerth £1 filiwn.

Yn dilyn y broses o wahodd ceisiadau i'r Gronfa, mae grantiau wedi'u dyrannu i 17 o brosiectau. Mae'r rhain yn cwmpasu prosiectau ar draws y sectorau sgrin, cerddoriaeth, digidol a gemau ledled Cymru ac yn amrywio o sgiliau lefel mynediad i hyfforddiant rheoli. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau sydd â'r nod o wella amrywiaeth a chynhwysiant yn benodol yn ogystal â phrosiectau traws-sector sy'n canolbwyntio ar sgiliau y gellid eu trosglwyddo rhwng yr holl sectorau creadigol, uwchsgilio'r gweithlu o weithwyr llawrydd, a llesiant y gweithlu hwnnw.

**Ymchwil a Datblygu**

Mae buddsoddi mewn ymchwil a datblygu a arweinir gan gwmnïau ac arloesi ar lefel y sector yn allweddol i fusnesau creadigol yng Nghymru gystadlu. Mae cyllid wedi'i ddyrannu i'r rhaglen media.cymru sef rhaglen gydweithredol er mwyn cyflymu'r twf yn sector cyfryngau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd Media Cymru yn hyrwyddo datblygu economaidd cynhwysol a chynaliadwy drwy fynd i'r afael ag anghenion sgiliau y dyfodol o ran ymchwil a datblygu, gan gynyddu cyfleoedd gwaith drwy arloesi a chreu cwmnïau cryfach. Bydd Media Cymru hefyd yn sicrhau cronfa ymchwil a datblygu ledled Cymru a fydd ar gael i fusnesau ar draws y diwydiannau sgrin. Bydd hyn yn sicrhau bod cyllid sy'n benodol ar gyfer arloesi ar gael ar draws y wlad gan hefyd gyflawni un o ymrwymiadau'r maniffesto.

Mae cyllid datblygu hefyd wedi'i roi i gefnogi gemau newydd, cysyniadau animeiddio, trochi, datblygu cysyniadau a chynnwys Realiti Rhithwir (VR) / Realiti Cymysg (MR) (Createch) a llwyfannau neu wasanaethau cyflawni yn y diwydiannau creadigol. Mae hyn er mwyn galluogi busnesau i farchnata'r prosiectau hyn ymhellach er mwyn ennill buddsoddiad masnachol.

**Arolwg Canolfan Bolisi a Thystiolaeth y Diwydiannau Creadigol (PEC) ynghylch arferion gwaith yn y diwydiannau creadigol**

Yn 2022, mewn partneriaeth â Thîm Gwaith Teg Llywodraeth Cymru, mae Cymru Greadigol wedi bod yn gweithio â Chanolfan Bolisi a Thystiolaeth y diwydiannau creadigol er mwyn cefnogi arolwg sy'n canolbwyntio ar Gymru o ran arferion gwaith yn y diwydiannau creadigol. Yn aelod o'r grŵp cynghori ar gyfer y gwaith hwn, mae Cymru Greadigol wedi cefnogi'r gwaith o lunio'r diffiniad o waith da a ddefnyddir i lywio'r gwaith o gipio data sylfaenol er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r diffiniad a'r nodweddion o waith teg a nodir yn Gwaith Teg Cymru. Rydym wedi gweithio â'r Ganolfan er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid o Gymru yn rhan o weithgareddau casglu tystiolaeth. Yn ogystal, cyd-drefnwyd digwyddiad bord gron yng Nghymru lle daeth rhanddeiliaid o lywodraeth, diwydiant, undebau a'r byd academaidd at ei gilydd i drafod materion o berthnasedd penodol i Gymru.

Dangosodd y canfyddiadau cychwynnol, er bod nifer o agweddau cadarnhaol i weithio yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru, gan gynnwys lefel uchel o foddhad o ran y gwaith ac angerdd am waith, annibyniaeth a hyblygrwydd, fod sawl her sydd angen mynd i'r afael â hwy. Mae'r rhain yn cynnwys cyfraddau is o ran tâl a buddiannau, diffyg sicrwydd gwaith, oriau hir, diffyg cynrychiolaeth ar gyfer gweithwyr, gallu rheoli annigonol a diffyg cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu. Mae graddau yr heriau hyn yn amrywio ar draws is-sectorau, busnesau a modelau cyflogaeth.

Cyhoeddwyd adroddiad y Ganolfan Bolisi a Thystiolaeth yn Chwefror 2023. Mae Cymru Greadigol yn defnyddio canfyddiadau'r adroddiad i weithio â Thîm Gwaith Teg Llywodraeth Cymru a llunio cynllun ar gyfer Cymru er mwyn helpu i wella arferion gwaith yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru.

**Y Cytundeb Cydweithio**

Mae Cymru Greadigol yn arwain ar gyflawni'r ymrwymiadau darlledu a chyfryngau a nodir yng Nghytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru â Phlaid Cymru. Cymru Greadigol yw'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd yng Nghymru a'r Panel Arbenigol ar Archwilio Sefydlu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru.

Yn 2022, gwnaeth y Gweithgor drafod ystod o faterion, gan gynnwys yr angen am lwybrau sy'n ymwneud â datblygu sgiliau a llwybrau gyrfaoedd hyfyw, yn enwedig i'r rhai hynny o gefndiroedd amrywiol a grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Trafodwyd hefyd yr angen am fuddsoddiad a chymorth i helpu i gynnal y sector, yr angen i fynd i'r afael â methiannau penodol yn y farchnad yn ogystal â gwella prosesau cyfathrebu ynghylch cyfleoedd. Mae'r Gweithgor wedi rhoi cyngor ar ddefnydd cyllidebau newyddiaduraeth Cymru Greadigol ar gyfer 2021/22 a'r Cytundeb Cydweithio ar gyfer 2022/23. Cynghorodd y Gweithgor hefyd ar y gwaith o gyflawni cynllun treialu Cronfa Newyddiaduraeth Hyperleol. Ysgogodd y trafodaethau gysylltiadau gweithio agosach ar gyfathrebiadau'r sector cyhoeddus er mwyn sicrhau bod prosesau o ran dosbarthu hysbysiadau awdurdodau lleol a hysbysiadau cyhoeddus yn cael eu gwneud ar lefel lleol iawn. Bydd y Gweithgor yn cyflwyno'i

argymhellion yn ffurfiol i gefnogi sefydlogrwydd parhaus y diwydiant i Lywodraeth Cymru yn hwyrach ym mis Mai.

Mae'r Panel Arbenigol ar Ddarlledu wedi casglu tystiolaeth a chynnal ymchwil er mwyn llywio ei waith. Mae hyn wedi cynnwys sesiynau casglu tystiolaeth gyda rhanddeiliaid darlledu mewn cyfarfodydd fis Hydref a mis Tachwedd 2022 a gyda ystod ehangach o randdeiliaid ar gychwyn 2023. Ochr yn ochr ag adolygiad o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, mae prosiectau ymchwil wedi'u cynnal i werthuso modelau mewn gwledydd eraill ac i astudio tueddiadau'r dyfodol yn y sector darlledu.  Mae gwybodaeth ynghylch tystiolaeth a gasglwyd a chanfyddiadau ymchwil wedi cael eu defnyddio i gefnogi'r gwaith o lunio adroddiad ac argymhellion terfynol y Panel, a fydd yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Dirprwy Weinidog a'r Aelod Dynodedig yn ddiweddarach ym mis Mai.

**Marchnata a Chyfathrebu**

Cymru Greadigol yw un o brif gonglfeini'r brand Cymru Wales. Cylch gwaith tîm Marchnata a Chyfathrebu Cymru Greadigol yw sicrhau mai Cymru yw *y* lle i alluogi busnesau creadigol i ffynnu yng Nghymru, ac yn rhyngwladol. Mae'r diwydiannau creadigol, yn benodol teledu a ffilm, wedi'u hamlygu yn flaenoriaeth yn y Strategaeth Ryngwladol. Mae Cymru Greadigol yn gweithio ar draws llywodraeth a chyda partneriaid i hyrwyddo Cymru yn y byd ac annog busnesau yng Nghymru a thu hwnt i sefydlu eu hunain yma a gweithredu oddi yma.

Gan ddefnyddio sianeli megis rhai cymdeithasol, e-byst, Cysylltiadau Cyhoeddus, digwyddiadau a phartneriaethau, mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth ynghylch gweithgareddau ar y cyd ac i elwa ar gyfleoedd i arddangos manteision buddsoddiadau er enghraifft y ffilmiau bach a gynhyrchwyd yn ddiweddar ar y cyd â Lucasfilm. Mae hyn yn cynnwys gweithio i gefnogi Copa Cyfryngau Cymru ym mis Mai 2023 a chyflwyno digwyddiad arddangos Cymru Greadigol ym mis Mehefin eleni. Mae Cymru Greadigol yn gweithio gydag adrannau eraill Llywodraeth Cymru megis Croeso Cymru, yr Adran Ryngwladol a Masnach a Buddsoddi er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i godi proffil Cymru yn rhyngwladol. Gwneir hynny drwy gymryd rhan mewn ymgyrchoedd gan gynnwys Cymru yng Nghwpan y Byd yn Qatar, Cymru yng Nghanada a'r ymgyrch Blwyddyn Llwybrau yng Nghymru sydd ar y gweill. Mae Cymru Greadigol wedi cynyddu presenoldeb byd-eang drwy hwyluso arddangosfeydd mewn digwyddiadau mawr yn y diwydiant cerddoriaeth ryngwladol megis XSW yn Austin, Tecsas, Unol Daleithiau America a The Great Escape yn Brighton, Lloegr.